## Herod Antipas

**Darllen Marc 6:14–29; Luc 13:31–32; 23:7–12**

Un o feibion Herod Fawr oedd y gŵr creulon hwn. Ar farwolaeth ei dad yn y flwyddyn 4 Cyn Crist fe'i hapwyntiwyd i deyrnasu dros Galilea fel tywysog. Ef a adeiladodd ddinas Tiberias i fod yn brifddinas iddo ar lannau Llyn Galilea. Cafodd ei frawd Philip fod yn dywysog tiriogaeth Itwrea a Trachonitis, a brawd arall Lysanias yn dywysog Abilene. Er bod Marc yn ei alw 'y Brenin Herod', pan ofynnodd ef yn y flwyddyn 39 o Oed Crist am y teitl o Frenin gan yr Ymerawdwr Caligula fe gafodd sioc ei fywyd o gael ei wrthod a'i esgymuno. Bu farw mewn alltudiaeth ymhell o Galilea yn Lyons.

Priododd â merch Aretas, brenin Arabia, a'i brifddinas yn Namascus, ond fe'i gadawodd. Cafodd ysgariad. Priododd yr eildro â Herodias, gwraig hanner brawd iddo. A dyna pam i'r proffwyd Ioan Fedyddiwr ei feirniadu'n llym gan fod Herodias yn nith iddo. Carcharodd Herod Ioan am fentro ei feirniadu, ac yn y diwedd cafodd Ioan Fedyddiwr ei ddienyddio ar ddymuniad Herodias.

Sonia Luc amdano ddwywaith. Y tro cyntaf oedd cyngor y Phariseaid i Iesu ymadael â Galilea gan fod Herod am ei ladd. Galwodd Iesu ef yn 'gadno', nid yn unig am ei fod yn gyfrwys, ond am ei fod yn barod i ladd. Gwna'r cadno hynny i'r ieir a'r ŵyn. Disgrifiad da o'r gŵr a laddodd Ioan Fedyddiwr. A dywed Luc (ef yn unig sy'n gwneud) y bu'n rhaid i Iesu ymddangos gerbron y gwalch gwaedlyd. Pan glywodd Pilat fod Iesu â'i wreiddiau yng Ngalilea, fe'i hanfonwyd at Herod oedd yn Jerwsalem fodd bynnag ar gyfer y Pasg. Ond nid oedd ganddo unrhyw hawl dros Iesu er ei fod, fel y dywed Luc, yn dra awyddus i gael sgwrs gydaIesu o Nasareth. Gwrthododd Iesu sgwrs gyda Herod Antipas. Yr oedd hyn yn rhwystredigaeth fawr i Herod gan ei fod yn disgwyl atebiad a gwyrth. Ni chafodd ei ddymuniad ond dangosodd ei anghymeradwyaeth wrth boenydio Iesu a'i drosglwyddo yn ôl i'w elyn mawr Pilat. Ond oherwydd seicoleg Pilat fe ddaeth y ddau lwynog yn bennaf ffrindiau. Daeth ychydig o ddaioni allan o'r cynllunio oedd yn sawru o ddrygioni tu hwnt i eiriau.

***D. Ben Rees***